

Sian Eirian Lewis



Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Pen Llŷn.

Ble aethoch chi i'r ysgol?

Ysgol Botwnnog.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Ro'n i'n casáu gwersi ymarfer corff, ac yn arbennig rhedeg trawsgwlad ar hyd caeau mwdlyd Botwnnog! Y peth gorau – cael chwerthin a mwyrdd yng nghwmni ffrindiau da.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?

Gofalwr mewn sw. Ro'n i wrth fy modd yn gwyllo'r pengwiniad yn nofio yn y tanc yn Sw Bae Colwyn ers talwm.

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?

Mae gen i dda! *Cyfrinach Betsan Morgan* gan Gwenno Hywyn a *Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones. Dwi wrth fy modd efo hanes, ac yn licio prif gymeriadau dewr a mentrus.

Beth yw eich diddordebau?

Nofio, padlfyrddio, cerdded ar y traeth ... unrhyw beth sy'n fy nghael i'n agos at ddŵr! A phengwiniad.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Bod allan yn yr awr agored.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Gwynt a glaw a bod yn sownd yn y tŷ.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?

Pan o'n i'n astudio ar gyfer fy arholiadau TGAU. Ro'n i'n mwynhau ysgrifennu straeon bychain fel dihangfa yn hytrach na chanolbwyntio ar ddysgu'r gwaith! Mi ges i bob anogaeth i ysgrifennu a chystadlu mewn eisteddfodau gan fy athrawon Cymraeg yn yr ysgol hefyd, oedd yn help mawr.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Mae fy mhlant yn dda am gynnig syniadau i mi. Mae'n ddifyr gweld pa lyfrau maen nhw'n eu mwynhau ar hyn o bryd, a'r pynciau sy'n taro deuddeg efo nhw a'u ffrindiau.

Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Dwi'n licio dysgu pethau newydd, felly dwi'n mwynhau rhoi cynnig ar bynciau neu themâu sy'n newydd i mi.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Peidio â bod ofn rhoi cynnig arni, ac i fwynhau'r profiad.

Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?

Mae'n broses unig iawn ar brydiau, ac mae ysgrifennu'n cymryd llawer iawn o amser. Y peth gorau am ysgrifennu ydy teipio'r drafft cyntaf o'r gwaith ar ôl wythnosau/misoedd/blynnyddoedd o fod yn potsian efo'r syniad yn eich pen. Mae'n deimlad braf cael ei roi ar bapur o'r diwedd!

Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Cyfrinach Betsan Morgan gan Gwenno Hywyn.

Hoff gymeriad o lyfr?

Luned (*Luned Bengoch* gan Elizabeth Watkin-Jones).

Hoff le?

Ynys Llanddwyn.

Hoff fwyd?

Bwyd môr.

Hoff ffilm?

Little Women.

Hoff air?

Swatio.

Superpower o ddewis?

Y gallu i nofio fel pysgodyn.

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Instagram.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Twm y ci.

Swydd tasech chi dim yn awdur?

Swydd ddelfrydol?

Ceidwad anifeiliaid mewn sw.

Top tip i ddarpar awduron:

Peidiwch â phoeni'n ormodol am y peth. Mi fydd 'na awduron sy'n fwy clyfar/gwreiddiol/cywir/dawnus na chi, ond be ydy'r ots am hynny? Dim ond chi sydd â'r gallu i ddeud eich stori arbennig chi. Ewch amdani.